

**CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL**

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 12 Tachwedd 2012**

**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 12 November 2012**

**Yn Bresennol/Present:** Cyng/Cllrs Tom Cowcher Mrs Eileen Curry (Cadeirydd /Chair) Douglas Davies Mrs Philippa Davies Terry Griffiths Andrew Howell Mrs Carolyn Reed-Rees a/and Cyng Sir/County Cllr Peter Evans.

- 1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriad gan/Apology was received from:-  
Cyng/Cllrs Rhiannon Ainsworth Beth Davies Keith Evans Wyn Evans Breian Teifi a/and  
Cyng Sir/County Cllr Peter Davies
  
- 2 **Datgelu Buddiannau Declarations of Interest:** Dim/None
  
- 3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 8 Hydref  
2012 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd/Minutes of monthly meeting held on 8  
October 2012 were accepted as correct and signed by the Chair.
  
- 4 **Materion yn Codi:-** Sul y Cofio –  
Adroddwyd bod gwasanaeth da iawn wedi cael  
ei gynnal yn Eglwys Llandysul.
  
- 5 **Rhoddion:-**
  - i) **Sgowtiaid 1af Llandysul** – Noson Tân  
Gwylt Llandysul (gofynnwyd am £250) –  
Cynigiodd Cyng Andrew Howell y dylem roi  
rhodd o £250, eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng  
Tom Cowcher ac fe'i derbyniwyd.
  - ii) **Cymdeithas Hanes Llandysul a'r Fro** –  
Gwefan – (gofynnwyd am £300) Cynigiodd  
Cyng Terry Griffiths y dylem roi rhodd o £300,  
eiliwyd y cynnig hwn gan Gyng Mrs Carolyn  
Reed-Rees ac fe'i derbyniwyd, ar yr amod ein  
bod yn cael anfonebau ategol. Estynnwyd  
gwahoddiad i'r aelodau fynychu cyfarfodydd y  
gymdeithas, a gynhelir ar y dydd Mercher olaf o  
bob mis yn Neuadd Tysul.
  - iii) **Capel Seion Llandysul** – Cawsom ein  
hysbysu nad ydynt yn bwrw ymlaen gyda'r cais  
am grant gan Geredigion o ganlyniad i'r  
gofynion niferus.
  - iv) **Shelter Cymru** – Cafwyd ffurflen  
ymgeisio am grant wedi'i llenwi a bydd hon yn  
cael ei thrafod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
  
- 4 **Matters Arising:-** Remembrance Sunday –  
It was reported that a very good service was held  
at Llandysul Church.
  
- 5 **Donations:-**
  - i) **1st Llandysul Scouts** – Llandysul Fireworks  
Display (£250 requested) – Cllr Andrew Howell  
proposed we give a donation of £250, this was  
seconded by Cllr Tom Cowcher and carried.
  - ii) **Cymdeithas Hanes Llandysul a'r Fro**  
(History Society) – Website - (£300 requested)  
Cllr Terry Griffiths proposed we give a donation  
of £300, this was seconded by Cllr Mrs Carolyn  
Reed-Rees and subject to providing supporting  
invoices was carried. Members were invited to  
attend their meetings held on the last Wednesday  
of every month at Neuadd Tysul Hall.
  - iii) **Capel Seion Llandysul Chapel** – We were  
informed that they are not proceeding with the  
grant application with Ceredigion owing to the  
numerous requirements.
  - iv) **Shelter Cymru** - Completed grant  
application form was received and is to be  
discussed at the end of the financial year.

v) **Gofal Canser Marie Curie** – Cafwyd ffurflen ymgeisio am grant wedi'i llenwi a bydd hon yn cael ei thrafod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

vi) **Urdd Gobaith Cymru – Ceredigion** – Cafwyd cais am grant ond unwaith eto, penderfynwyd y byddem yn parhau i roi rhodd dan drefniant lleol.

vii) **Canolfan Dŵr Llandysul Aqua Centre** – Cafwyd anfonebau ategol am y gwaith a wnaethpwyd i wella'r system wresogi a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic eic am y grant a gymeradwywyd, sef £1,911.00. Tynnir eu sylw at y ffaith bod angen glanhau uwch ben y bar yn y pwll.

viii) Cafwyd **cydnabyddiaeth derbyn rhodd** gan Sioe Pren-gwyn, Apêl y Pabi Llandysul, Carnifal Llandysul a Sioe Llandysul. Yn ogystal, cafwyd gwahoddiad i fynychu Cinio Blynnyddol Sioe Llandysul yng Ngwesty Porth ar 23 Tachwedd 2012. Bydd Cyng a Mrs Tom Cowcher yn cynrychioli'r Cyngor.

**6 Canllaw y Cynghorydd Da 2012**:- Cafwyd trafodaeth am adrannau amrywiol. Penderfynwyd ystyried y posibilrwydd o gael gwefan ar gyfer y Cyngor Cymuned ac i gael dyfynbrisiau. Efallai y bydd angen i ni ystyried Cynllun Cymunedol yn y dyfodol. Atgoffwyd yr aelodau o'r angen i ddarllen Canllaw y Cynghorydd Da, y Rheolau Sefydlog a'r Cod Ymddygiad o leiaf unwaith y flwyddyn. Gofynnwyd i Gyng Mrs Eileen Curry i gysylltu gyda Mr Aeron Rees, pennaeth Ysgol Dyffryn Teifi, er mwyn trafod y posibilrwydd o wahodd pobl ifanc o flwyddyn 12/13 i'n cyfarfod am y 10 i 15 munud cyntaf, ond yn yr un modd â'r cyhoedd, y byddai modd iddynt aros am y cyfarfod cyfan os byddent yn dymuno gwneud hynny.

**7 Ffurflen Ymgeisio am Grant**:- Darllenodd Cyng Andrew Howell y geiriad drafft a gynigir. Penderfynwyd y dylai'r Cyngor Cymuned gael ad-daliad os bydd Eglwysi, Capeli a/neu Sefydliadau yn cau neu os na fyddant yn bodoli mwyach cyn pen cyfnod o hyd at 3 blynedd ar ôl cael y rhodd. Yn ogystal, gofynnir am gynllun ar gyfer y dyfodol a dylid ei gynnwys yn y ffurflen.

v) **Marie Curie Cancer Care** – Completed grant application form was received and is to be discussed at the end of the financial year.

vi) **Urdd Gobaith Cymru – Ceredigion** – Request for a grant was received but, it was again resolved to continue to donate locally.

vii) **Canolfan Dŵr Llandysul Aqua Centre** – Supporting invoices were received for the improvement work on heating and cheque was passed for the approved grant of £1,911.00. The need to clean above the bar in the pool is to be brought to their attention.

viii) **Acknowledgement of receipt of donations** were received from Prengwyn Show, Llandysul Poppy Appeal, Llandysul Carnival and Llandysul Show. An invitation was also received to attend the Annual Dinner of the Llandysul Show at the Porth Hotel on 23<sup>rd</sup> November 2012. Cllr & Mrs Tom Cowcher will represent the Council.

**6 The Good Councillor's Guide 2012**:- A discussion took place on various sections. It was decided to look into the possibility of a website for the Community Council and to obtain quotes. Community Plan is something that we may need to consider in the future. Members were reminded to read The Good Councillor's Guide, the Standing Orders and Code of Conduct at least once a year. Cllr Mrs Eileen Curry was requested to liaise with Mr Aeron Rees headmaster of Ysgol Dyffryn Teifi School in connection with the possibility of inviting young people from year 12/13 to our meeting for the first 10 to 15 minutes but, as with public, can remain with us for the entire meeting if they wish.

**7 Grant Application Form**:- Cllr Andrew Howell read proposed draft wording. It was resolved that should Churches, Chapels and/or Organisations close or cease to exist up to a 3 year period after the donation is made, the Community Council is then to be reimbursed. Future plan is also to be requested and included in the form.

8 **Eich Iechyd Eich Dyfodol**:- Fel y gofynnwyd, cafwyd copïau o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Holiadur Ymgynghori, ac roedd y Clerc wedi eu postio at yr holl aelodau er mwyn galluogi unigolion i ymateb erbyn 29.10.12 (£15.60 oedd y gost am bostio'r rhain i gyd).

9 **Gohebiaeth**:-

a) Cafwyd y canlynol wrth Geredigion – Sedd Wag ar gyfer Ward Tref Llandysul – Cafwyd Hysbysiadau Cyhoeddus ac fe'u dangoswyd. Cyfyngiadau Parcio yn Llandysul – Cawsom ein hysbysu gan Geredigion bod Cyng S Peter Evans wedi trefnu'r cyfarfod gyda phreswylwyr yn Llandysul, ac nad oedd Ceredigion wedi cymryd rhan. Hysbyswyd y cyfarfod gan Gyng S Peter Evans bod y cyfarfod yn Llandysul wedi cael ei drefnu gan breswyllydd lleol a bod aelodau o Geredigion sef Alun Williams, Kevin Aldritt a Katy Spain wedi mynychu'r cyfarfod. Roedd Elin Jones AC hefyd wedi mynychu'r cyfarfod. Y cynigion a wnaethpwyd oedd ymestyn y cyfyngiadau parcio ar y brif stryd i 1 awr ac i 2 awr ar y ffordd waelod. Mae parcio digyfyngiad yn cael ei ystyried rhwng y Cilgwyn a Llysawen, wrth Stryd y Bont ac o bosibl, gerllaw Gwesty Porth, ond mae Gwesty Porth wedi darparu ei leoedd parcio ychwanegol ei hun. Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Clerc i gysylltu â Cheredigion unwaith eto. Maes Parcio Llandysul – Fel yr hysbyswyd yn y gorffennol gan Gyng Keith Evans, nododd Cyng S Peter Evans na fyddai modd cael parcio am ddim oherwydd y byddai Trefi eraill yn gofyn am barcio am ddim hefyd os byddai hynny yn digwydd. Penodi Comisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu Dyfed Powys – Cafwyd Hysbysiadau Cyhoeddus ac fe'u dangoswyd. Ffordd Penwalle (uwch ben Teras Marmor i Brynheulog) – Cafwyd hysbysiad y byddai'r ffordd yn cael ei chau rhwng 3.12.2012 a 1.02.13.

8 **Your Health Your Future**:- As requested, copies of Consultation Document was received together with Consultation Questionnaire and had been posted out by the Clerk to all members for individuals to respond by 29.10.12 (postage of £15.60 incurred).

9 **Correspondence**:-

a) The following were received from Ceredigion – Llandysul Town Ward Causal Vacancy – Public Notices were received and displayed. Parking Restrictions at Llandysul – Ceredigion informed that C Cllr Peter Evans had arranged the meeting with residents at Llandysul and that Ceredigion were not involved. C Cllr Peter Evans informed at our meeting that the meeting at Llandysul had been arranged by a local resident and that members of Ceredigion being Alun Williams, Kevin Aldritt and Katy Spain had attended the meeting. Elin Jones AM had also attended the meeting. The proposals made were to increase the parking restrictions on the main street to 1hr and to 2hrs on the bottom road. Unlimited parking is being considered between Cilgwyn and Llysawen, at Bridge Street and possibly near Porth Hotel but, Porth Hotel have provided their own additional parking. The Clerk was instructed to contact Ceredigion again. Llandysul Car Park – As informed in the past by Cllr Keith Evans, C Cllr Peter Evans stated that it would not be possible to have free parking as other Towns will also request free parking. Appointment of a Dyfed Powys Police Crime Commissioner – Public Notices were received and displayed. Penwalle Road (above Marble Terrace to Sunnyhill) – Notice of closure of road from 3.12.2012 to 1.02.13 was received.

- b) **ULIC** – Cafwyd hysbysiad ynghylch Cyfarfod Ardal Ceredigion a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2012. Roedd Cyng Andrew Howell wedi mynychu a chafwyd adroddiad ganddo. Yn ogystal, roedd Cyng Andrew Howell wedi mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ULIC ym Mhonrhydfendigaid a chafwyd adroddiad ganddo am y cyfarfod hwnnw, ac mai'r prif bynciau a drafodwyd oedd Lles a Chynladwyedd. Cafwyd Y Llais. Cafwyd y negeseuon e-bost canlynol:- Penodi Cadeirydd ac Aelodau i'r Panel Cyngori ynghylch Camddefnyddio Sylweddau, Llusernau Papur a Balŵns, Prosiect Addasu i'r newid yn yr Hinsawdd, Llyfr Achosion yr Ombwdsmon – Rhifyn 10.
- c) **Mancinelli Maurizio** – Prosiect Gefeillio Ewropeaidd Bydd Cyng Mrs Eileen Curry yn cysylltu gyda Mr Aeron Rees (Pennaeth Ysgol Dyffryn Teifi) cyn bo hir.
- d) **Llywodraeth Cymru** – Nid yw Lles yn effeithio arnom ar hyn o bryd, ond fe allai effeithio arnom yn y dyfodol. Bydd y Clerc yn ymateb.
- e) **WPD** – Mae gohebiaeth a gafwyd ynghylch Cysylltiadau Dros Dro Heb eu Mesur ar gyfer goleuadau Nadolig 2012/13 wedi cael ei hanfon ymlaen at Llandysul a Phontweli Ymlaen er mwyn ei llenwi. Yn ogystal, cafwyd hysbysiad am gyfarfodydd ynghylch Cynlluniau Buddsoddi ar gyfer y Dyfodol.
- f) **Heddlu Dyfed Powys** – April Jones – Diolchwyd i ni am ein llythyr o gefnogaeth.
- g) **Cyngor ar Bopeth** – Cafwyd hysbysiad am y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ar 14 Rhagfyr 2012 am 6.30pm yn Aberystwyth.
- h) **Comisiwn Ffiniau i Gymru** – Cyhoeddwyd Cynigion Diwygiedig Adolygiad 2013 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru. Bydd y cyfnod er mwyn gwneud cyflwyniadau yn dod i ben ar 18 Rhagfyr 2012.
- i) **Canolfan Ieuenctid Tysul** – Cafwyd neges e-bost ynghylch “A oes modd i chi helpu pobl ifanc dros y Nadolig eleni” ac fe'i nodwyd.
- j) **SLCC** – Cafwyd gohebiaeth.
- k) **CaThEM** – Cafwyd gohebiaeth.
- b) **OVW** – Notice was received of Ceredigion Area Meeting held on 24 October 2012. Cllr Andrew Howell had attended and gave a report. Cllr Andrew Howell also attended OVW AGM at Ponrhydfendigaid and gave a report, main topics being Wellbeing and Sustainability. The Voice was received. The following emails were received:- Appointment of Chair and Members to the Advisory Panel on Substance Misuse, Balloon and Chinese Lanterns, Climate change Adaption Project, The Ombudsman's Casebook – Issue 10.
- c) **Mancinelli Maurizio** – European Twinning project Cllr Mrs Eileen Curry will be liaising with Mr Aeron Rees (Headmaster of Ysgol Dyffryn Teifi) shortly.
- d) **Wales Government** – Well-being does not currently affect us but, may affect us in the future. Clerk is to respond.
- e) **WPD** – Correspondence re Temporary Unmetered Connections for festive lighting Christmas 2012/13 and has been forwarded to Llandysul a Phontweli Ymlaen for completion. Notice of meetings re Future Investment Plans was also received.
- f) **Dyfed Powys Police** – April Jones – We were thanked for our letter of support.
- g) **CAB** – Notice was received of the AGM to be held on 14 December 2012 at 6.30pm at Aberystwyth.
- h) **Boundary Commission for Wales** – The 2013 Review of Parliamentary Constituencies in Wales Revised Proposals was announced. Representation period will end on 18 December 2012.
- i) **Tysul Youth Centre** – Email was received re “Can you help young people this Christmas” and noted.
- j) **SLCC** – Correspondence was received.
- k) **HMRC** – Correspondence was received.

- l) **Hen Gapel Llwynrhydowen** – Cafwyd cofnodion eu cyfarfod. Cawsom ein hysbysu o'r ffaith y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 15 Tachwedd 2012 yn Nhafarn Bach, ac y bydd Digwyddiad Nadolig yn cael ei drefnu.
- m) **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** – Cafwyd llythyr gan Janet Finch-Saunders AC yn rhinwedd ei swydd fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Lywodraeth Leol, gan nodi ei bod yn dymuno meithrin cysylltiadau gweithio agosach. Penderfynwyd anfon manylion cyswllt yr holl aelodau ymlaen ati.
- n) Cafwyd **Clerks & Councils Direct** a thynnodd y Clerc sylw'r aelodau at y costau y bu'n rhaid i un Cyngor Cymuned eu talu mewn perthynas â'u hymgais i ddiddymu ffioedd parcio.
- o) Cafwyd **The Clerk**.
- p) Cafwyd **Chwarae i Gymru**.
- q) **Age Concern Ceredigion** – Cafwyd hysbysiad o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a gynhelir ar 22 Tachwedd 2012.
- r) **Anfonebau:-**
- i) **Llinos Jones** – Cafwyd anfoneb am y swm o £147.60 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Hydref a derbyniwyd y dylid ei thalu.
- ii) **Mr R J Foulkes** – Cafwyd cadarnhad bod y cyfrifon ar 30 Medi 2012 wedi cael eu harchwilio ac y canfuwyd eu bod yn gywir yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd, a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic e i dalu'r ffi o £25. Yn ogystal, roedd Cyng Mrs Carolyn Reed-Rees, fel y gwiriwr mewnol, wedi archwilio'r cyfrifon.
- iii) **Cyng Andrew Howell** – Cafwyd anfoneb am gostau teithio am gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfodydd y tu allan i'r gymuned, ynghyd â rhestr o'r cyfarfodydd a fynychwyd. Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i roi sic e am y swm o £77.20 er mwyn ei dalu.
- iv) **D W Evans** – Cafwyd anfoneb am y swm o £20 am wneud y gwaith o gynnal a chadw a phaentio'r Fainc yng Nghapel Dewi a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic e er mwyn ei thalu.
- v) **BT** – Cafwyd anfoneb am y swm o £122.22 am y gwasanaeth ffôn a band eang a derbyniwyd y dylid ysgrifennu sic e er mwyn ei thalu.

- l) **Hen Gapel Llwynrhydowen** (Old Chapel) – Minutes of their meeting was received. We were notified that the next meeting is to take place on 15 November 2012 at Tafarn Bach and that a Christmas Event is to be organised.
- m) **National Assembly for Wales** - Letter was received from Janet Finch-Saunders AM as Shadow Minister for Local Government looking to establish closer working links. It was decided to forward contact details of all members.
- n) **Clerks & Councils Direct** was received and the Clerk brought to the attention of members the costs incurred by a Community Council in connection with their attempt to abolish car parking fees.
- o) **The Clerk** was received.
- p) **Play for Wales** was received.
- q) **Age Concern Ceredigion** – Notice of AGM to be held on 22 November 2012 was received.
- r) **Invoices:-**
- i) **Llinos Jones** - Invoice was received in the sum of £147.60 for the October translating and passed for payment.
- ii) **Mr R J Foulkes** – Confirmation was received that the accounts as at 30 September 2012 have been examined and found to be correct on the information provided and cheque passed in payment for the fee of £25. Cllr Mrs Carolyn Reed-Rees as internal checker has also checked the accounts.
- iii) **Cllr Andrew Howell** – Invoice for travelling expenses representing the Council at meetings outside the community together with list of meetings attended was received. It was unanimously resolved to issue a cheque in the sum for £77.20 in payment.
- iv) **D W Evans** – Invoice was received in the sum of £20 for the maintenance and painting of the Bench at Capel Dewi and cheque was passed for payment.
- v) **BT** – Invoice was received in the sum of £122.22 in connection with telephone and broadband and cheque was passed for payment.

10 **Gwaith Cynnal a Chadw/Llwybrau Troed 2013:-** Gofynnir am ddyfynbrisiau gan y canlynol:- D W Evans, Meredith Williams, Mark Wilson a Meredith Brown.

11 **Ciosgau Coch:-** Cafwyd adroddiad gan Gyng Mrs Eileen Curry, a nododd y bydd Tafarn Gwarcefel yn trefnu bod Ciosg Pren-gwyn yn cael ei baentio, a bod y bocsys Cymorth Cyntaf wedi cyrraedd. Mae Cyng S Peter Davies wedi hysbysu'r Clerc (cyn y cyfarfod) bod Ceredigion wedi ei hysbysu nad ydynt wedi cael y Cais Cynllunio a anfonwyd sawl mis yn ôl ynghylch Ciosg Capel Dewi ac y bydd yn delio gyda'r mater hwn.

12 **Balchder Pentrefi** – Bellach, cafwyd y Cytundeb Cyflawni Prosiect a gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol y dylai'r Cadeirydd lofnodi'r Cytundeb. Bydd Cyng Mrs Eileen Curry yn cysylltu gyda Chymdeithas Hanes Llandysul ynghylch y Byrddau Gwybodaeth.

13 **Pobl Ifanc yn y Gymuned – Meini Prawf:-** Bydd yr eitem hon yn aros ar yr Agenda.

14 **Datblygiadau Blodau Llandysul – Dysglau Plannu** – Mae Ceredigion wedi cytuno mewn egwyddor i'r gwaith o leoli dysglau plannu haenog yn y lleoliadau canlynol:- Lunch Box, Tŷ Garfield, 2 rhwng Cilgwyn ac 1 Heol Newydd a gyferbyn â'r is-orsaf yn Heol Newydd. Bydd llythyr ffurfiol yn cael ei anfon at yr Adran Briffyrdd nawr er mwyn gwneud cais am drwydded i leoli pob dysgl blannu.

15 **Y Wasg:-** Unwaith eto, roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cambrian News ond nid oes gohebydd wedi mynychu'r cyfarfod eto.

16 **Coeden Goffa Christmas Evans:-** Cafwyd trafodaeth am y mater, a bydd yr eitem yn aros ar yr Agenda.

10 **Footpaths/Maintenance Work 2013:-** Quotes to be requested from the following:- D W Evans, Meredith Williams, Mark Wilson and Meredith Brown.

11 **Red Kiosks:-** Cllr Mrs Eileen Curry gave a report and informed that Gwarcefel Arms will be arranging the painting of the Pren-gwyn Kiosk and First Aid boxes have arrived. C Cllr Peter Davies had informed the Clerk (prior to the meeting) that Ceredigion have now informed him that they have not received the Planning Application sent several months ago for Capel Dewi Kiosk and will be dealing with the matter.

12 **Balchder Pentrefi** – Project Delivery Agreement has now been received and was unanimously resolved that the Chair should sign the Agreement. Cllr Mrs Eileen Curry will liaise with Cymdeithas Hanes Llandysul in connection with the Information Boards.

13 **Young People in The Community – Criteria:-** To remain on the Agenda.

14 **Development of Llandysul Flowers – Planters** – Ceredigion have agreed in principle to the siting of tiered planters at the following locations:- Lunch Box, Ty Garfield, 2 between Cilgwyn and 1 New Road and Opp Sub-station in New Road . Formal letter is now to be forwarded to Highways for a licence to site each planter.

15 **Press:-** Clerk had again contacted the Cambrian News but, a reporter has not yet attended the meeting.

16 **Christmas Evans Memorial Tree:-** A discussion took place and is to remain on the Agenda.

17 **Praesept**:- Atgoffwyd yr aelodau gan y Clerc y byddwn yn cael gwybodaeth gan Geredigion cyn bo hir ac y bydd y Praesept yn eitem ar yr Agenda ym mis Rhagfyr neu ym mis Ionawr. Gofynnwyd yr aelodau i hysbysu'r Clerc o gynlluniau posibl i'w hystyried yn ystod y drafodaeth.

18 **Sgwâr Horeb – Golau Stryd**:- Bydd llythyr yn cael ei anfon at Geredigion, yn tynnu eu sylw at y ffaith ei bod yn dywyll ar Sgwâr Horeb.

19 **Cŵn yn y Parc ac ar y Caeau Chwarae**:- Nid yw'r Clerc na Chyng S Peter Davies wedi cael ymateb eto. Mae Cyng S Peter Davies wedi hysbysu'r Clerc (cyn y cyfarfod) y bydd yn tynnu sylw'r Cyfarwyddwr at hyn. Adroddodd Cyng S Peter Evans bod y Gymdeithas Chwaraeon yn mynd trwy'r broses o leoli arwyddion pellach ar hyn o bryd.

20 **Cynllunio**: Ni chafwyd Hysbysiad am Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad, a bydd y Clerc yn cysylltu â Cheredigion.

Cymeradwywyd y cynlluniau canlynol dan awdurdod dirprwyedig:-

Rhydysais – Tyrbin gwynt E3120 Endurance (mwyafswm uchder o 46.1m), llwybr mynediad a ffos geblau.

**Caniatâd Cynllunio**

Pafiliwn Chwaraeon Tir Dref – Estyniad

17 **Precept**:- Clerk reminded members that information will soon be received from Ceredigion and the Precept will either be on the Agenda for December or January. Members were requested to inform the Clerk of possible schemes for consideration in the discussion.

18 **Horeb Square – Street light**:- Letter to be forwarded to Ceredigion bringing to their attention the darkness on Horeb Square.

19 **Dogs in the Park and Playing Fields**:- No response has yet been received by the Clerk or C Cllr Peter Davies. C Cllr Peter Davies had informed the Clerk (prior to the meeting) that he will bring this to the attention of the Director. C Cllr Peter Evans reported that Cymdeithas Chwaraeon are in the process of siting further signs.

20 **Planning**: Notice of the Development Control Committee Meeting was not received, Clerk is to contact Ceredigion.

The following plans were approved under delegated authority:-

Rhydysais – Endurance E3120 wind turbine (max height 46.1m), access track and cable trench.

**Planning Permission**

Tir Dref Sports Pavilion - Extension